# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(9) v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**
**2.**
Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 (15 munud)**

**NDM4745 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod fersiwn drafft Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mehefin 2011.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011
Memorandwm Esboniadol
Y Pwyllgor Offerynnau Statudol
Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg
Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg

**4. Dadl ar Wasanaethau Cymdeithasol (60 munud)**

**NDM4746 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r weledigaeth sydd wedi'u pennu yn "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu" yw'r allwedd i gyflawni ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru; ac

2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac i arwain y rhaglen newid y mae gofyn ei chynnal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fodloni anghenion a dyheadau ein dinasyddion.

*Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu:*

http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu'r geiriau 'parhau i fodloni' a rhoi 'bodloni' yn eu lle.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod manteision defnyddio taliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu eu defnydd lle bo hynny'n briodol.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun cyflenwi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn amlinellu ei hymrwymiad i ddatblygu ac arwain y rhaglen newid.

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'n gyflym y defnydd o Gyllidebau Personol ar gyfer gwasanaethau gofal.

**5. Dadl ar yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen (60 munud)**

**NDM4747 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi'r ymdrech y mae'r Llywodraeth yn ei gwneud, drwy'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, i symud adnoddau oddi wrth swyddogaethau gweinyddol a chynorthwyol a'u trosglwyddo i reng flaen addysgu a dysgu, ac i wella perfformiad addysgol a chyflawniadau dysgwyr ledled Cymru.

2. Yn croesawu cyfraniad Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru i'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen.

*Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru:*

http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/educationservicesreview/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'gyda'r nod yn benodol o sicrhau bod plant sy'n gadael ysgol gynradd yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfri i'r safon ddisgwyliedig'

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i ystyried daearyddiaeth unigryw Cymru wrth ffurfio unrhyw gonsortia addysg rhanbarthol yn y dyfodol.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i fanteisio ar arbenigedd athrawon wrth ffurfio polisïau.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad addysgol Cymru.

**Cyfnod pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4744 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Colli'r ffordd wrth bontio

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011**